# Ymweliadau gan Ysgolion a Grwpiau

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi i'ch helpu chi i gynllunio eich ymweliad â Theatr Pafiliwn y Rhyl a sicrhau eich bod chi a'ch grŵp yn mwynhau eich amser ac yn aros yn ddiogel.

Mae Theatr Pafiliwn y Rhyl yn cynnig amgylchedd diogel i ymwelwyr a staff ac yn cydymffurfio â'r holl reoliadau a deddfwriaethau Iechyd a Diogelwch perthnasol.
Mae'r Theatr wedi cynnal Asesiadau Risg helaeth ar bob rhan o'r adeilad, a phob math o weithgareddau a wneir ynddo.
Mae staff y Theatr yn cael eu briffio'n llawn ar weithdrefnau'r Theatr ar gyfer gadael yr adeilad mewn argyfwng.

Mae rhai peryglon yn parhau, ac mae'n gyfrifoldeb ar bawb, boed yn aelod o staff y theatr neu'n ymwelydd, i sicrhau bod y risg o anaf i'w hunain neu eraill cyn lleied â phosib ar bob adeg. Disgwylir i aelodau'r gynulleidfa ymddwyn mewn modd trefnus a chyfrifol bob amser, ac arweinwyr grwpiau sy'n gyfrifol am ymddygiad unigolion o fewn eu grŵp.

Yn benodol, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod yr holl gyfarwyddiadau a roddir gan staff y Theatr yn cael eu dilyn, ac nad yw ffitiadau a gosodiadau'r adeilad yn cael eu camddefnyddio, eu camdrin na'u difrodi gan unrhyw unigolyn mewn unrhyw ffordd.

Disgwylir i arweinwyr grwpiau ac unigolion gadw at yr amodau archebu a nodir ar y tocyn mynediad. Mae'n ofynnol hefyd bod arweinwyr grwpiau'n rhoi gwybod i'r Theatr, ar yr adeg y gwneir yr archeb, am unrhyw amgylchiadau a allai effeithio ar iechyd a diogelwch unrhyw unigolyn, neu am unrhyw reolyddion a allai fod yn angenrheidiol.
Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r sioe.

Theatr Pafiliwn y Rhyl

| Perygl | Risg | Rheoli |
|---|---|---|
| Tân | Anaf personol neu farwolaeth | • Y Theatr i gynnal a chadw'r adeilad mewn modd sy'n lleihau'r risg o dân.<br>• Adolygu'r Asesiad Risg Tân llawn yn rheolaidd, a gweithredu rheolyddion.<br>• Cynnal a chadw Larymau Tân, Goleuadau Argyfwng, a systemau ac offer diffodd tân yn llawn.<br>• Staff y Theatr i ymarfer y gweithdrefnau ar gyfer gadael y Theatr mewn argyfwng yn rheolaidd.<br>• Ni chaniateir ysmygu yn unrhyw ran o'r Theatr. |
| Gwagio'r adeilad mewn argyfwng | Panig yn arwain at anaf personol | • Ymarferion yn cael eu cynnal yn rheolaidd.<br>• Caiff pob allanfa ei gwirio gan staff y Theatr cyn bob perfformiad.<br>• Mae pob aelod o staff y Theatr wedi cael hyfforddiant ar weithdrefnau gwagio'r adeilad.<br>• Dilyn y cyfarwyddiadau a roddir gan staff y Theatr<br>• Arweinwyr grwpiau i sicrhau nad oes unrhyw oedi wrth gasglu eiddo personol.<br>• Arweinwyr grwpiau i fod yn gyfrifol am ymddygiad yr unigolion yn eu gofal. |
| Defnyddwyr cadeiriau olwyn a'r rheiny sydd â phroblemau symud yn gadael yr adeilad mewn argyfwng | Oedi o ran gadael yr adeilad | • Cynhelir ymarferion yn rheolaidd.<br>• Mae pob aelod o staff y Theatr wedi'u hyfforddi ar y drefn ar gyfer cael defnyddwyr cadeiriau olwyn ac offer cysylltiedig allan o'r adeilad mewn argyfwng. |
| Seddi'r awditoriwm | Anaf personol o ganlyniad i gamddefnyddio'r seddi | • Rhaid defnyddio'r holl seddi'n briodol – rhaid i bawb roi eu seddi i lawr ac eistedd yn briodol.<br>• Arweinwyr grwpiau i fod yn gyfrifol am ymddygiad unigolion yn eu gofal.<br>• Rhaid i unigolion ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan staff y Theatr. |
| Eiliau'r awditoriwm | Mynedfeydd ac allanfeydd wedi'u rhwystro | • Rhaid cadw'r eiliau'n glir – dim aros, sefyll nac eistedd yn yr eiliau.<br>• Arweinwyr grwpiau i fod yn gyfrifol am ymddygiad unigolion yn eu gofal.<br>• Rhaid i unigolion ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan staff y Theatr. |

| Perygl | Risg | Rheoli |
|---|---|---|
| Grisiau | Anaf personol ar ôl syrthio ar y grisiau | • Pob unigolyn i ymddwyn yn briodol ar y grisiau.<br>• Arweinwyr grwpiau i fod yn gyfrifol am ymddygiad unigolion yn eu gofal.<br>• Rhaid i unigolion ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan staff y Theatr. |
| Uchder (y Cylch neu'r Balconi) | Anaf personol ar ôl disgyn o uchder (y Cylch neu'r Balconi)<br>Panig neu salwch oherwydd pendro<br>Anaf o ganlyniad i eitemau'n cael eu gollwng neu'u taflu o uchder | • Ni chaniateir i unrhyw unigolyn ddringo neu bwyso yn erbyn rheiliau neu falwstrad y Cylch neu'r Balconi.<br>• Bydd staff y Theatr yn wyliadwrus ac yn atal unrhyw unigolyn rhag ceisio dringo dros reiliau/balwstrad y Cylch neu'r Balconi.<br>• Arweinwyr grwpiau i fod yn gyfrifol am ymddygiad unigolion yn eu gofal.<br>• Dylai arweinwyr grwpiau roi gwybod i staff y Theatr, ar yr adeg y gwneir yr archeb, am unrhyw unigolyn sydd â hanes o ddioddef pendro.<br>• Arweinwyr grwpiau a staff y Theatr i fod yn wyliadwrus wrth geisio atal eitemau rhag cael eu gollwng neu'u taflu o uchder yn fwriadol neu'n ddamweiniol.<br>• Rhaid i unigolion ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan staff y Theatr. |
| Ymddygiad swnllyd, ymosodol, neu amhriodol | Anaf personol i drydydd parti<br>Gwrthdaro a achosir gan ymddygiad sy'n tarfu | • Pob unigolyn i ymddwyn mewn modd trefnus ac ystyriol yn y Theatr.<br>• Arweinwyr grwpiau i reoli ymddygiad unigolion yn eu gofal mewn ffordd bwyllog.<br>• Rhaid i unigolion ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan staff y Theatr. |
| Camdriniaeth bersonol | Anaf corfforol neu seicolegol | • Arweinwyr grwpiau i fod yn gyfrifol am ymddygiad unigolion yn eu gofal.<br>• Rhaid i unigolion ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan staff y Theatr.<br>• Rhaid rhoi gwybod i'r Goruchwyliwr Blaen Tŷ am bob digwyddiad. |

theatr
pafiliwn
Y RHYL

**Seddi Hygyrch**

Mae mannau dynodedig ar gael ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, gyda seddi i gyfeillion wrth eu hymyl a mynediad cyfleus at yr allanfeydd a thoiledau. Gellir dod i mewn i'r theatr drwy'r brif fynedfa, sydd â ramp o'r maes parcio a phalmant.

**Cyrraedd a Gadael**

Mae man dynodedig i fysus ollwng teithwyr yn uniongyrchol y tu allan i fynedfa'r Theatr, yn ogystal â mannau aros dynodedig i fysus ar y promenâd.

Ceir mynediad i'r adeilad drwy'r brif fynedfa'n unig. Ni chaniateir mynediad drwy'r allanfeydd tân.

Bydd grwpiau'n cael eu tywys i'w seddi yn y drefn y maent yn cyrraedd, yn ôl cyfarwyddyd y Goruchwyliwr Blaen Tŷ a'r Tywyswyr. Ar ôl i grwpiau gael eu rhoi yn eu seddi, ni ellir eu symud.

Mae'n rhaid i grwpiau adael yr awditoriwm ar ddiwedd y perfformiad. Bydd staff y Theatr yn eich cyfeirio at y mannau aros dynodedig, lle y gall grwpiau aros am eu bws yn ddiogel.

**Cymorth a Chyngor**

Os oes arnoch chi angen unrhyw gymorth neu gyngor pellach, cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau ar **01824 774893** neu anfonwch neges e-bost at **Swyddfa.Docynnau@dll.co.uk**